
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 29ain o Fedi, 2026

Presenoldeb: **Is-gadeirydd:** Dewi Lewis

Cynghorwyr: Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Owen, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Angela Russell, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Peter Barnes, Carys Edwards, Eifion Jones, a Paul Millar Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio Mewnol), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth) Gwion Elis Jones (Uwch Gyfrifydd - Cyngor Gwynedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Eitem 8: Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Cyng. Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor / Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Cyng. Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) a Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol Dewi Lewis yn gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2026 / 27

2. ETHOL DIRPRWY- GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol Carys Edwards yn ddirprwy gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2026 / 27

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Rowlands a Wendy Cleaver

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Orffennaf 2026 fel rhai cywir.

7. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Cyfarfod 13-11-2025 - Gwella Trefniadau Casglu Treth Cyngor – ymddengys nad oedd diweddariad ar y mater wedi ei gynnwys ar flaen raglen 2026/2027 y Pwyllgor.
- Bidiau Cyfalaf – Cynllun Ymestyn Maes Parcio Ysgol y Faenol.
Er yn derbyn bod llithriad yn y cynllun wedi deillio o faterion cyfreithiol cymhleth a chynnydd yn ymwneud â gofynion darpariaeth parcio sylweddol o gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol, mynegwyd siom gan yr Aelod Lleol nad oedd costau'r llithriad wedi eu hamlygu. Ategodd mai braf oedd gweld y gwaith yn mynd yn ei flaen, ond roedd yn dymuno gweld y mater yn cael ei gynnwys ar y daflen weithredu hyd nes bod ateb i'r cwestiwn ariannol. Nododd mai bid cyfalaf oedd yma gyda chwmni wedi ei benodi drwy dendr i wneud y gwaith.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:

- Gwella Trefniadau Casglu Treth Cyngor – angen rhaglennu diweddariad ar y mater i flaen raglen 2026/2027 y Pwyllgor
- Bidiau Cyfalaf – Cynllun Ymestyn Maes Parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am y costau ynghlwm â'r llithriad

8. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Yn ystod cyflwyniad yr Arweinydd ac yna sylwadau dilynol gan y Prif Weithredwr, daethpwyd i'r amlwg bod diffyg cysylltiad rhwydwaith gan yr Aelodau a'r Swyddogion oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd y diffyg cysylltiad yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ddilyn y drafodaeth ac felly gwnaed penderfyniad am 10:45 i gymryd seibiant o hanner awr fel bod modd ceisio datrys y mater.

Yn dilyn trafodaeth rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cyllid, a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor mai prin iawn oedd gohirio unrhyw gyfarfod ffurfiol oherwydd materion technegol, ond gyda nifer o eitemau pwysig ar y rhaglen oedd angen sylwadau a chymeradwyaeth lawn y Pwyllgor, penderfynwyd gohirio'r cyfarfod i ddyddiad arall gan nad oedd modd parhau oherwydd problemau technegol. Ategodd pe byddai gwybodaeth am y broblem yn dod i law, byddai yn rhannu'r wybodaeth gyda'r Aelodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11:15